Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Foel Gron
# Mynytho
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 7RN

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru



**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 22/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Foel Gron ym mhentref Mynytho, Gwynedd ac mae dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Oddeutu 71% o'r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin yn amser llawn ym mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 41 o blant ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan ddwy athrawes amser llawn.

Mae oddeutu 23% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 27% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn uwch na chanrannau Cymru. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Ebrill 2014. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Foel Gron yn 2015-2016 yn £4,782. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £12,116 a'r lleiafswm yw £2,981. Mae Ysgol Foel Gron yn y 24ain safle allan o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bron bob disgybl yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- Safonau ymddygiad yn uchel iawn ac mae'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn foesgar a chwrtais
- Yr athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol sy'n sbarduno'r disgyblion i weithio'n galed
- Yr ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol lle teimla'r disgyblion yn ddiogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- Y pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth a gwerthoedd clir i'r ysgol
- Holl aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- Aelodau'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth briodol i fywyd a gwaith yr ysgol
- Cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar godi safonau disgyblion
- Yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles

## Argymhellion

A1 Parhau i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill

A2 Sicrhau ystod ehangach o gyfleoedd i ddisgyblion yn cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm

A3 Datblygu ymhellach rôl y llywodraethwyr er mwyn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion

| Prif ganfyddiadau |
|---|

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod cyflawniad yn amrywio'n naturiol yn unol â'u gallu, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i oddeutu traean o'r disgyblion. Er hyn, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron bob un yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth, ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae bron bob disgybl wedi gwneud cynnydd da ym mhob maes dysgu.

Mae medrau llafaredd rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n llwyddiannus ac, erbyn Blwyddyn 2, maent yn siarad yn gynyddol gywir a hyderus. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau syml yn dda ac yn ymateb i gwestiynau yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn cyflwyno gwybodaeth yn frwdfrydig ac yn ymateb yn hyderus wrth drafod eu gwaith am 'Y Dyn Haearn'. Maent yn ynganu ac yn goslefu yn ddealladwy gan ddefnyddio amrywiaeth o ymadroddion a phatrymau brawddeg pwrpasol gyda chywirdeb. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron bob disgybl yn hyderus ddwyieithog.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen darnau cyfarwydd yn glir a chyda pheth mynegiant. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o ystod gynyddol o eiriau ac ymadroddion a ffeithiau allweddol. Maent yn dod yn gynyddol hyderus wrth ymateb i'r testunau drwy gyfeirio at fanylion arwyddocaol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg a Saesneg gyda rhuglder. Maent yn ymateb yn ystyrlon i'r cynnwys ac yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol da. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion uwch eu gallu yn dechrau defnyddio eu medrau uwch ddarllen yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Gallant ffurfio amrywiaeth o frawddegau, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o eirfa ac yn defnyddio patrymau brawddegau cyfarwydd mewn modd bywiog. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir a chyda cysondeb ac yn sillafu geiriau syml yn gywir fel rheol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ganddynt afael gynyddol o gywirdeb ac atalnodi, gyda'r mwyafrif yn trefnu eu gwaith yn effeithiol. Gall rhan fwyaf y disgyblion ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion, yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae llawysgrifen rhan fwyaf o'r disgyblion yn glir, er nad yw'r gwaith bob amser yn daclus.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos cynnydd da mewn medrau rhif. Maent yn datblygu medrau ymchwilio yn fedrus i ddarganfod gwerth

eitem mewn siop ac i fesur cynhwysedd dŵr i weld faint sydd wedi anweddu dros amser. Mae llawer ohonynt yn casglu data i ddarganfod beth yw hoff degan y disgyblion a chyflwyno'r wybodaeth ar ffurf graff a siart syml yn gywir. Maent yn datrys problemau'n dda wrth gynnal arbrawf i fesur hyd ceir bychan ac wrth fesur y pellter maent yn teithio ac yn cyflwyno eu darganfyddiadau'n drefnus mewn graff bar ac yn dehongli'r canlyniadau yn ddeallus.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau rhifedd ac yn cymhwyso eu medrau yn dda wrth ddarganfod maint torfeydd mewn tair gem bel droed. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ffracsiynau, canrannau a degolion. Maent yn defnyddio holiaduron yn effeithiol ar gyfer casglu gwybodaeth am boblogaeth gwahanol ddinasoedd a chynhyrchu graffiau clir i gyfleu eu canfyddiadau. Maent yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda mewn pynciau eraill, yn enwedig gwyddoniaeth a daearyddiaeth, er enghraifft wrth gymharu tymheredd gwahanol ddinasoedd ar draws y byd.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol a'u hoed a'u gallu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Yn ogystal, mae'r niferoedd yn rhy fach i wneud cymhariaeth ystyrlon rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim â disgyblion eraill.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, gan amlaf dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn iaith. Mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch mewn medrau iaith wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf ond wedi amrywio mewn mathemateg rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ac ar y lefel uwch (lefel 5) o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

**Lles: Da**

Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.

Mae safonau ymddygiad yn uchel iawn ac mae'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn foesgar a chwrtais. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus a chydwybodol iawn gyda'i gilydd.

Ar draws yr ysgol, mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad bron bob un o'r disgyblion yn dda. Mae'r ffordd y mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud

dewisiadau ynghylch eu dysgu yn nodwedd gref ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfrannu’n ddeallus at yr hyn maent yn ei ddysgu. Fodd bynnag, nid yw gallu llawer o’r disgyblion o ran sut i wella eu gwaith wedi datblygu’n llawn.
Mae’r cyngor ysgol a’r cyngor eco yn sicrhau cyfleoedd da i ddisgyblion fynegi eu safbwyntiau a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Maent wedi eu sefydlu’n gadarn ac mae’r aelodau yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cyfrannu’n effeithiol at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae’r cyngor ysgol wedi chwarae rhan allweddol ym mhenderfyniad yr ysgol i sefydlu gardd, sydd bellach yn tyfu llysiau’n llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol ac yn falch o’u hymdrechion i godi arian er budd elusennau fel Plant mewn Angen. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i wasanaethu a diddori trigolion y pentref drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau a chyngherddau.

Mae lefelau presenoldeb yn dda ac wedi bod yn yr 25% uchaf yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol sy’n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a’r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae themâu’r dosbarthiadau yn cael eu dewis yn ofalus i sicrhau cyfleoedd da i’r disgyblion ddysgu am eu cymuned, Penllŷn a’r byd ehangach.

Mae’r cynlluniau gwaith yn rhoi sylw priodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, anghyson yw’r cyfleoedd i’r disgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r Gymraeg yn llwyddiannus iawn ac yn annog y disgyblion i’w defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu yn barhaus. Mae’r modd y mae’r ysgol yn ymateb i ddisgwyliadau’r Siarter Iaith yn gryfder amlwg. Mae hyrwyddo gwybodaeth y disgyblion am eu hardal leol a diwylliant a hanes Cymru yn amlwg ac yn ganolog i holl waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw’r ymweliadau i fannau hanesyddol bwysig a’r gwaith ar y Cymry yn ymfudo i’r Wladfa. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn dangos balchder yn eu Cymreictod a’u hetifeddiaeth.

Mae’r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus trwy drefnu ymweliadau a gwahodd ymwelwyr i’r ysgol. Mae’r gweithgareddau allgyrsiol, fel ymweld a chanolfan breswyl Glan-llyn, yn cyfrannu’n dda at brofiadau’r disgyblion.

Mae’r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang. Mae’r pwyllgor eco yn llwyddiannus wrth godi ymwybyddiaeth disgyblion am bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth gadarn am ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol a chyffrous sy'n sbarduno'r disgyblion i weithio'n galed mewn grwpiau ac yn annibynnol. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol y wers.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau yn feddylgar iawn i gynorthwyo'r dysgu. Maent yn rhannu'r amcanion dysgu yn glir ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn gyson yn y gwersi. Mae perthynas waith gadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ymhob dosbarth ac mae'r holl oedolion yn hyrwyddo Cymraeg cywir yn gyson.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ond anghyson yw'r sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Fodd bynnag, nid ydynt eto wedi cael llawn effaith ar fedrau'r disgyblion i wneud hyn yn ddigon effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd buddiol o brofion safonol ac asesiadau athrawon. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod targedau penodol ac i ddarparu tasgau priodol er mwyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant ac maent yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a sut i fod yn ddiogel yn effeithiol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Gwahoddir ymwelwyr yn gyson i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar bynciau cyfoes, fel gofalu am yr amgylchedd ac ystyried plant a phobl llai ffodus. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau cefnogaeth werthfawr. Mae'r rhaglen ymyrraeth wedi ei datblygu'n dda ac yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da a chaiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni.

Mae'r cydweithio agos sy'n bodoli rhwng yr ysgol a gwasanaethau arbenigol, fel therapyddion iaith, yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion. Mae parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo yn llwyddiannus drwy waith amrywiol, gan gynnwys astudio gwledydd tramor.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol ac fe wneir defnydd medrus ohonynt. Mae'r mannau dysgu allanol wedi eu datblygu mewn modd creadigol er mwyn gwneud defnydd llawn o'r gofod sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o'r cae cymunedol agos ar gyfer chwaraeon amrywiol.

Mae arddangosfeydd deniadol o waith a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbathiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol, er enghraifft ar y thema 'Y Dyn Haearn' sy'n ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae hyn yn cefnogi'r dysgu'n dda ac yn ychwanegu at ethos cartrefol a chroesawgar yr ysgol.

Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a chadw'n dda. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth a gwerthoedd clir i'r ysgol, ac mae'n rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr.

Mae'n cynnig arweinyddiaeth gadarn, effeithiol. Caiff ei chefnogi'n dda gan holl aelodau'r staff wrth sicrhau bod pob agwedd ar fywyd yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae strwythurau a pholisïau clir ar waith ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac effeithiol.

Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn rhoi sylw teilwng i wella cyrhaeddiad y disgyblion ac yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau wrth gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr holl aelodau staff swydd ddisgrifiadau manwl sy'n cysylltu'n dda â'u cyfrifoldebau unigol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth briodol i fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn deall data perfformiad yr ysgol yn briodol ac yn gwybod sut mae'n cymharu â data perfformiad ysgolion tebyg. Maent yn dechrau dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn fwy effeithiol, ond nid yw'r arfer hon wedi ei gwreiddio'n llawn hyd yma.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'u sefydlu'n llwyddiannus ac mae argymhellion y Siarter Iaith yn cael sylw ardderchog ym mywyd a gwaith yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau clir gan yr arweinwyr i fonitro perfformiad yr ysgol. Mae dadansoddi data yn rhan annatod o'r broses ac fe gesglir ystod eang o dystiolaeth yn effeithiol, gan gynnwys arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a siarad â dysgwyr. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi helpu'r arweinwyr a'r staff i ffurfio adroddiad hunanarfarnu defnyddiol sy'n adnabod yn glir y cryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu.

Mae safbwyntiau staff, rhieni a disgyblion yn cefnogi'r broses arfarnu yn briodol. Rhoddir sylw da i lais y disgyblion drwy sesiynau amser cylch, cyngor yr ysgol, bocs bwrw bol a holiadurion. Mae sylwadau a barn rhieni yn cael eu hystyried o ddifrif drwy holiaduron cyson.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar godi safonau disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r sylw a roddir i wella mathemateg pen ar draws yr ysgol ac uwch fedrau darllen yng nghyfnod allweddol 2. Cyfeiria'r cynllun yn effeithiol at y camau i'w cymryd, gyda targedau mesuradwy, amseriad synhwyrol, y cyllid angenrheidiol a'r unigolion sydd â chyfrifoldeb i'w cyflawni.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn y profiadau dysgu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gref gyda rhieni ac yn eu hysbysu dda am weithdrefnau'r ysgol, er enghraifft drwy ddefnyddio negeseuon testun a rhwydweithiau cymdeithasol. Mae'r ysgol wedi trefnu gweithdai defnyddiol i rieni di-Gymraeg, fel eu bod yn gallu cefnogi eu plant yn y cartref. Gwerthfawrogai'r rhieni hyn yn fawr iawn.

Mae'r ethos agored a chroesawgar yn llwyddo i ddatblygu partneriaethau cadarn gyda'r gymuned, er enghraifft trwy ymweld â'r capel a'r eglwys leol ar gyfer gweithgareddau tymhorol amrywiol. Gwna'r ysgol ddefnydd cyson o gymorth unigolion o'r gymuned i gyfrannu at brofiadau a chefnogi gweithgareddau'r disgyblion, er enghraifft wrth helpu yn y clwb garddio a threfnu ymweliadau i'r orsaf bad achub leol.

Mae trefniadau gwerthfawr gyda nifer o gylchoedd meithrin lleol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Cydweithia'r ysgol yn briodol gyda'r ysgol uwchradd leol ac mae trefniadau effeithiol i sicrhau lles disgyblion wrth drosglwyddo.

Mae cysylltiadau buddiol â'r clwstwr ysgolion cynradd lleol ar ystod o fentrau, sy'n cynnwys safoni a chymedroli safonau ac asesiadau disgyblion. Mae hyn yn sicrhau dilysrwydd lefelau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o'u harbenigedd ac mae cyfraniad y staff cynorthwyol yn hynod effeithiol wrth annog a chyfrannu at Gymreictod yr ysgol ac ymateb i anghenion dysgu ychwanegol disgyblion.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff mewn meysydd priodol sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ynghyd â blaenoriaethau gwella penodol y staff. Mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol ac yn cydweithio yn agos ag ysgolion eraill i rannu arfer dda, fel datblygu strategaethau i wella hyder disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon ac mae athrawon yn defnyddio eu hamser digyswllt yn briodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n dda er mwyn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg iawn yn y defnydd a wneir o'r ardal allanol, y neuadd a'r cae chwarae cymunedol.

Rheolir gwariant yn ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol. Mae defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gynnal disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at godi safonau iaith.

O ystyried y deilliannau da, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

**6613010 - YSGOL FOEL GRON**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 30 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 23.1 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 6 | * | 6 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 83.3 | * | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | 2 | * | 3 | * |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | * | 6 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | * | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 3 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | * | 33.3 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 2 | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | * | 6 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | * | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | 2 | * | 3 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | * | 33.3 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 2 | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | * | 6 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | * | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 1 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | * | 16.7 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 4 | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | * | 6 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | * | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 1 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | * | 16.7 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 4 | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 13 | 13<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 13 | 13<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 13 | 13<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 13 | 13<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 13 | 13<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 13 | 13<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 13 | 13<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 13 | 13<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 13 | 13<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 13 | 13<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 13 | 13<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 13 | 11<br>85%<br>84% | 2<br>15%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Brian Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Judith Owen | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.